COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 19 Rhagfyr 2000
**Amser:** 9.00am
**Lle:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Presennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Marie Knox.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC335-00 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC345-00 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC345-00)

3.1 **Paragraff 3.1** – Dywedodd Marion Stapleton fod swyddogion yn dal i ystyried y geiriad ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog i gydnabod "Gweinidogion", a rhai newidiadau pellach. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Marion Stapleton**

3.2 **Paragraff 3.4** – Byddai papur yn cynnig diwygiadau i Reol Sefydlog 12 (Y Pwyllgor Archwilio) yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Marie Knox**

## 4. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn

4.1 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Rheolwyr Busnes am eu sylwadau ar y cyfyngiadau amser yr oedd wedi'u gosod yn ystod y ddadl ar Raglen Waith y Llywodraeth ddydd Iau 14 Rhagfyr. Yr oedd Jocelyn Davies yn teimlo y byddai ar Weinidogion a oedd yn dirwyn dadl i ben angen mwy o amser na siaradwyr eraill. Byddai hyn yn rhoi cyfle iddynt fynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau a godwyd yn ystod y ddadl. Cytunodd William Graham â hyn gan ychwanegu y dylid glynu wrth unrhyw gyfyngiadau amser a gyhoeddid. Dywedodd y Trefnydd fod y Pwyllgor Busnes eisoes wedi ystyried gweithdrefnau er mwyn caniatáu mwy o amser ar gyfer dadleuon ar fore dydd Iau. Cytunwyd, er bod y drefn bresennol yn ei gwneud yn bosibl i gyfarfod llawn dydd Iau orffen ryw 10 munud yn hwyrach nag a nodir ar yr amserlen, nad oedd unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio cynnig trefniadol yn achlysurol i ymestyn y cyfarfod am ychydig petai angen.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad am weithdrefnau

5.1 Nododd y Pwyllgor bapur BC348-00 a oedd yn nodi y byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn cychwyn ar adolygiad ym mis Ionawr o'r canllawiau ar gwestiynau llafar ac ysgrifenedig i'r Cynulliad. Gofynnwyd i'r Rheolwr Busnes dynnu sylw eu grwpiau at hyn. Byddai modd gwneud unrhyw awgrymiadau neu sylwadau i'r Dirprwy Lywydd a byddent yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddfa Gyflwyno. Byddai ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch unrhyw ddiwygiadau arfaethedig. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes i hysbysu eu grwpiau**

## 6. Pwyllgorau

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor gais gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (BC347-00) am gael cynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Iau 18 Ionawr 2001, a chytunwyd i'r cais.

## 7. Busnes at y dyfodol

**Busnes yr wythnos hon**

7.1  Dywedodd y Trefnydd ei bod yn bosibl y byddai Datganiad gan y Cabinet yng nghyfarfod llawn y prynhawn fel ymateb i gais am gwestiwn brys am Corus.

7.2  Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC349-00).

**Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 8, 15 ac 22 Ionawr 2001**

7.3 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd am ei ddatganiad arfaethedig am drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 8, 15 ac 22 Ionawr oedd y dylai fynd yn ei flaen yn unol â'r datganiad busnes drafft.

**8.  Is-ddeddfwriaeth**

8.1  Dim.

**9.  Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

9.1  Dim.

**10. Dyfarniadau gan y Llywydd**

10.1  Dim.

**11. Unrhyw fusnes arall**

11.1  Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 16 Ionawr 2001.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**